LONDON WELSH SCHOOL
YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN

Hanwell Community Centre, Westcott Crescent, Hanwell, W7 1PD
Athrawes Arweiniol: Rachel Rawlins
020 8575 0237
info@ysgolgymraegllundain.co.uk

Mrs Suzy Davies
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

22/5/17

Annwyl Suzy,

Ysgrifennaf ar ran Brwdd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Llundain i ddweud ychydig wrthoch chi am ein hysgol. Ymhyfrydwn yn y ffaith fod yr Ysgol fechan hapus a llwyddiannus hon yn dathlu ei phen blwydd yn 60 oed y flwyddyn nesaf.

Mae ein niferoedd wedi bod yn sefydlog ers rhai blynyddoedd bellach ac mae'n destun balchder mawr i ni y bydd y niferoedd yn cynyddu eto y flwyddyn nesaf. Mae marchnata'r Ysgol yn flaenoriaeth bwysig ac rydym yn awyddus iawn I gynyddu'r niferoedd hyd yn oed yn fwy. Er mai Ysgol fechan ydym, mae'n her ariannol enfawr i gynnal yr ysgol ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gangen Datblygu'r Gymraeg mewn Addysg o'r Cynulliad am y cymorthdal blynyddol, sy'n cyllido oddeutu hanner o gostau rhedeg yr Ysgol. I gau'r bwlch ariannol, derbynnir ffioedd a chyfraniadau ariannol oddi wrth gymuned Cymry Llundain ac mae rhaglen barhaus o ddigwyddiadau codi arian gan CRAFf. Cofrestrwyd yr Ysgol fel elusen ac ni wrthodir unrhyw deulu ar sail anawsterau ariannol.

Dilynwn Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru ac felly mae'r diwylliant Cymraeg a Chymreig yn rhan anatod o weithgareddau a gwersi beunyddiol y plant. Sicrha hyn fod ein disgyblion yn teimlo'n rhan o'r gymdeithas Gymraeg a Chymreig ehangach. Cymraeg sy'n cael ei siarad yn naturiol amser chwarae. Mae'r ysgol yn ffenestr siop i ddiwylliant Cymraeg a Chymreig yn Llundain –canu ac adrodd yng Ngwasanaeth Blynyddol Gwyl Ddewi yn San Steffan; cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol megis Carnifal Hanwell a chyngherddau yng Nghanolfan Cymry Llundain. Mae'r ymweliadau blynyddol á San Steffan yn tanlinellu statws yr iaith y tu hwnt I Gymru. Gyda'u parodrwydd i symud i fyw i'r ardal neu i deithio o bob cwr o Lundain (fel y gwna'r Ffrancwyr gyda'r Lycee) , dengys hyn ymroddiad diflino y rhieni i addysg Gymraeg yn Llundain.

LONDON WELSH SCHOOL
YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN

Hanwell Community Centre, Westcott Crescent, Hanwell, W7 1PD
Athrawes Arweiniol: Rachel Rawlins
020 8575 0237
info@ysgolgymraegllundain.co.uk

Mae nifer o deuloedd yn dychwelyd i Gymru ac mae'r addysg Gymraeg a dderbyniwyd yn galluog'r planti i integreiddio i ysgolion Cymraeg yn ddi-drafferth.  Credwn bydd dylanwad a bodolaeth yr Ysgol yn cyfrannu i'r uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rydym yn ymwybodol bod cyfyngiadau ar gyllid yng Nghymru, ond mae gwir angen cefnogaeth  gennym oddiwrthych chi a'ch Plaid.  Mawr hyderwn y byddwch yn parhau i eilio'r ysgol pan ddaw yn amser i ystyried dosbarthu arian y flwyddyn nesaf.

Yn olaf, hoffwn estyn gwahoddiad i chi ymweld â ni.   Mae croeso cynnes yn eich haros ac rydym yn gwbwl hyderus y bydd awyrgylch egniol a Chymreig ein hysgol yn creu argraff arbennig iawn arnoch.

Yr eiddoch yn gywir

pp Catrin Whitehouse

Margaret Jones,
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr